**GORCHMYNNODD Y LLYS na ddylai unrhyw un gyhoeddi na datgelu enw na chyfeiriad yr apelydd sy'n destun yr achosion hyn na chyhoeddi na ddatgelu unrhyw wybodaeth a fyddai'n debygol o arwain at adnabod yr apelydd nac unrhyw aelod o'i theulu mewn perthynas â'r achosion hyn.**

**24 Gorffennaf 2019**

**CRYNODEB Y WASG**

**X (Apelydd) v Kuoni Travel Ltd (Gwrthapelydd) [2019] UKSC 37**
***Ar apêl gan [2018] EWCA Civ 938***

**USTUSIAID**: Arglwydd Kerr, Arglwydd Hodge, Arglwydd Lloyd-Jones, Arglwyddes Arden, Arglwydd Kitchin

## CEFNDIR I'R APÊL

Ar neu oddeutu 1 Ebrill 2010 daeth yr apelydd a'i gŵr ("Mr a Mrs X") i gontract gyda gweithredwr teithiau'r gwrthapelydd ("Kuoni") ble cytunodd Kuoni i ddarparu gwyliau pecyn yn Sri Lanka.

Yn ystod oriau cynnar 17 Gorffennaf 2010, roedd yr apelydd yn mynd trwy diroedd y gwesty at y dderbynfa. Daeth ar draws un o gyflogeion y gwesty, N, a oedd wedi ei gyflogi gan y gwesty fel trydanwr ac (ar sail y ffeithiau a ganfuwyd gan y barnwr) yr oedd hi'n ei adnabod fel hynny. Roedd N ar ddyletswydd ac yn gwisgo lifrai aelod o staff cynnal a chadw'r gwesty. Cynigiodd N ddangos llwybr byr iddi i'r dderbynfa, cynnig a dderbyniwyd ganddi. Denodd N hi i'r ystafell beiriannau, ble gwnaeth ei threisio ac ymosod arni.

Yn yr achoson hyn, mae Mrs X yn hawlio iawndal yn erbyn Kuoni oherwydd y trais ac ymosodiad. Mae'r hawliad yn cael ei ddwyn am dorri contract ac/neu dan y Rheoliadau Becynnau Teithio, Gwyliau Pecyn a Theithiau Pecyn 1992 ("Rheoliadau 1992") sy'n weithredol yn y Deyrnas Unedig dan Gyfarwyddeb Cyngor 90/314/EEC 13 Mehefin 1990 ar becynnau teithio, gwyliau pecyn a theithiau pecyn ("y Gyfarwyddeb").

Yn yr Uchel Lys, casglodd HHJ McKenna nad oedd yr ymrwymiad contractiol y byddai "trefniadau gwyliau" o safon dderbyniol yn cynnwys aelod o'r tîm cynnal a chadw yn tywys gwestai i'r dderbynfa. Cynhaliodd hefyd na fyddai Kuoni wedi gallu dibynnu p'un bynnag ar yr amddiffyniad statudol dan reoliad 15(2)(c)(ii) oherwydd nad oedd yr ymosodiad yn ddigwyddiad y byddai wedi bod yn bosibl ei ragweld na rhagflaenu (trwy resymiad gan y gwesty) hyd yn oed gyda phob gofal posibl. Gwrthododd y Llys Apêl (Syr Terence Etherton MR, Longmore ac Asplin LJJ) yr apêl trwy fwyafrif (Longmore LJ yn anghytuno). Mewn dyfarniad ar y cyd, cynhaliodd y mwyafrif nad oedd y trefniadau gwyliau yn cynnwys N yn tywys Mrs X i'r dderbynfa. Cynhaliodd y mwyafrif ymhellach nad oedd Kuoni yn atebol naill ai dan delerau penodol cymal 5.10(b) na rheoliad 15 gan nad oedd N yn "gyflenwr" o fewn ystyr y darpariaethau hynny.

Ar apêl i'r Goruchaf Lys roedd dau brif fater:

(1) A oedd y trais ac ymosodiad ar Mrs X yn cyfateb i berfformiad amhriodol o ymrwymiadau Kuoni dan y contract?

(2) Os felly, a yw unrhyw atebolrwydd ar ran Kuoni parthed ymddygiad N wedi ei eithrio gan gymal 5.10(b) y contract ac/neu reoliad 15(2)(c) Rheoliadau 1992?

**DYFARNIAD**

Mae'r Goruchaf Lys yn penderfynu'n unfrydol cyfeirio dau gwestiwn at Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd. Sefydlir y cylch gorchwyl gan yr Arglwydd Lloyd-Jones.

**Y CWESTIYNAU A GYFEIRIWYD**

I ddibenion yr atgyfeiriad hwn, gofynnir i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd dybio bod arweiniad gan aelod o staff y gwesty i Mrs X i'r dderbynfa yn wasanaeth o fewn y "trefniadau gwyliau" yr oedd Kuoni wedi ei gontractio i ddarparu a bod y trais ac ymosodiad yn cyfateb i berfformiad amhriodol o'r contract **[22]**.

Er mwyn pennu'r apêl hwn, yn benodol parthed yr ail fater a nodwyd uchod, mae'r Goruchaf Lys yn cyfeirio'r cwestiynau canlynol i Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd **[23]**:

(1) Ble cafwyd methiant i berfformio neu berfformiad amhriodol o'r ymrwymiadau yn codi dan gontract trefnydd neu fasnachwr gyda defnyddiwr i ddarparu gwyliau pecyn y mae'r Gyfarwyddeb yn berthnasol iddo, bod y methiant hwnnw i berfformio neu berfformiad amhriodol yn ganlyniad i weithredoedd cyflogai neu gwmni gwesty sy'n ddarparwr gwasanaethau y mae'r contract hwnnw yn berthnasol iddo:

  (a) a oes cwmpas ar gyfer gweithredu'r amddiffyn a sefydlir yn ail ran y trydydd a linea i erthygl 5(2); ac, os felly,

  (b) yn ôl pa feini prawf ddylai'r llys cenedlaethol asesu os yw'r amddiffyn hwnnw'n berthnasol?

(2) Ble mae trefnydd neu fasnachwr yn mynd i gontract gyda defnyddiwr i ddarparu gwyliau pecyn y mae'r Gyfarwyddeb yn berthnasol iddo, a ble mae cwmni gwesty yn darparu gwasanaethau y mae'r contract hwnnw yn berthnasol iddynt, a yw cyflogai'r gwesty hwnnw ei hun yn cael ei ystyried yn "gyflenwr gwasanaethau" i ddibenion yr amddiffyn dan erthygl 5(2), trydydd a linea y Gyfarwyddeb?

*Mae cyfeiriadau mewn cromfachau sgwâr at baragraffau yn y dyfarniad*

**NODYN**

**Darperir y crynodeb hwn i gynorthwyo o ran deall penderfyniad y Llys. Nid yw'n rhan o'r rhesymau dros y penderfyniad. Dyfarniad llawn y Llys yw'r unig ddogfen awdurdodol. Mae dyfarniadau yn ddogfennau cyhoeddus ac ar gael ar:**
http://supremecourt.uk/decided-cases/index.html